



TGAU

3010NB0-1



S19-3010NB0-1

DYDD IAU, 13 MEHEFIN 2019 – PRYNHAWN

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 2: Y Nofel

HAEN UWCH

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

NOFELAU

	Tudalen
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	2
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	4
DIM (Dafydd Chilton)	6
Y STAFELL DDIRGEL (Marion Eames)	8
YN Y GWAED (Geraint Vaughan Jones)	10
O RAN (Mererid Hopwood)	12

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones

1. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

1	1
---	---

Trafodwch **ddwy** olygfa drist gan esbonio eu pwysigrwydd yn y nofel. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa a ddyfynnwyd ar dudalen 3. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen.

[20]

1	2
---	---

Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 3. **Sut** mae'r awdur yn cyfleu tensiwn yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

1	3
---	---

Ysgrifennwch **lythyr Gladys at Bethan** wedi iddi weld cysgod Richard Jones yn llechu yn ei gardd. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

[40]

“Dieuog.”

5 Ni wyddai'r pen-rheithor faint o'r bobl a oedd yn y llys a ddisgwyliai glywed y gair hwn, a cheisiodd lefaru'n groyw, ond aeth ei foment o bwysigrwydd yn drech nag ef, a chrygodd ar ganol y gair. Dechreuodd deimlo'n annifyr wrth synhwyro llygaid pawb arno, ac aeth yn fwy annifyr byth pan glywodd lawer ebychiad o syndod yn dod o ganol y trigain o bobl yn yr oriel gyhoeddus fel ton annisgwyl dros y llys. Ac yna, fwyaf sydyn, daeth sŵn arall, sŵn a yrrodd y gwaed o wyneb pawb, sgrech uchel a llais merch yn gweiddi'n ddireol.

“Na, na, fedrwch chi ddim. Fedrwch chi ddim.”

10 Trodd y llais yn sgrech yn ôl. Yr oedd y ferch ar ei thraed ar flaen yr oriel a'i dwylo dros ei hwyneb, ac wrth ei hochr yr oedd dynes wedi neidio i fyny gan gau ei dyrnau, a cheisiai weiddi rhywbeth ar y rheithgor. Ond boddid ei hymdrechion gan sgrechiadau'r ferch yn ei hymyl.

Yr oedd y cwbl yn ormod i'r pen-rheithor. Methodd ei goesau â'i gynnal a chwympodd i lawr ar ei fainc. Yr oedd golwg ddychrynlyd arno.

15 Yr oedd yr Heddwes Gareth Hughes wedi darogan helynt. Gwyddai y munud y gwelodd y ferch yn dod i'r llys mai camgymeriad dybryd oedd dod â hi i glywed y dyfarniad, oherwydd yr oedd gan yr erlyniad wendidau mawr yn ei achos, fel yr oedd ef wedi dweud o'r dechrau un, ac wedi ei ddal i'w ddweud am dri mis, ei ddweud a'i ddweud nes ei fod wedi codi bron bawb o heddlu swyddfa Penerddig yn ei ben. Ac ar ôl gwranddo ar yr achos am dridiau, teimlai bod ei amheumon wedi eu cadarnhau ac y byddai'r ferch a'i theulu'n cael sioc. A sioc go hegar fydd hi, meddyliodd.

20 A phan wireddwyd ei amheumon, yr oedd yr heddwes yn barod. Safai ar drothwy un o'r ddau ddrws yn yr oriel, a'r munud y gwelodd y cythrwfl yn dechrau, brasgamodd rhwng y bobl syn at y ferch. Yr oedd hynny yn ddo'i hun yn waith caled am fod llawer o'r bobl yn dechrau cael blas ar yr helynt, ac yn amharod i symud dim i neb. Ond llwyddodd yr heddwes, drwy ddefnyddio pen-glin a phenelin, i gyrraedd y ferch. Gwyddai y byddai pawb yn gobeithio cael gweld y ferch yn cael ei llusgo allan yn ddiseremoni, ond adwaenai Gareth Hughes hi'n rhy dda i wneud rhyw gampau felly â hi, ac yn lle ei llusgo, gafaelodd yn ddi'n gadarn.

“Dyna ni, Bethan, dyna ni. Tyrd, mi awn ni o 'ma.”

Gan ddal i afael yn ddi, a siarad yn daer â hi, aeth â hi drwy'r bobl ac allan. Dilynwyd hwy gan y ddynes, a ddaliai i barablu a chau ei dyrnau, ond erbyn hyn yr oedd yn baglu yn ei dagrau.

30 “Amdanyn nhw Jim,” gwaeddodd rhingyll ar yr heddwes a safai wrth ei ochr ger y drws arall. Yr eiliad nesaf, yr oedd y rhingyll yn pystylad ei ffordd drwy'r bobl, ac yr oedd ar goll yn eu canol cyn i'r llall feddwl am symud. Gwyddai'r rhingyll yn iawn yr hyn a oedd am ddigwydd nesaf. Yr oedd brawd y ferch yn yr oriel hefyd, ac yr oedd y rhingyll yn adnabod Huw Gwastad Hir, yn ei adnabod yn dda.

35 Yr oedd yn llygad ei le. Ar flaen yr oriel safodd gŵr cyrliog cadarn naw ar hugain oed, yn gyhyrau i'w draed, a'i wyneb yn fflamgoch. Dechreuodd weiddi nerth ei ben.

“Y cachgwn. Y ffernols clwyddog. Tasa gennych chi ferch y diawliaid ...”

I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

2	1
---	---

Trafodwch **ddwy** olygfa drist gan esbonio eu pwysigrwydd yn y nofel. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa a ddyfynnwyd ar dudalen 5. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]

2	2
---	---

Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 5. **Sut** mae'r awdur yn cyfleu tensiwn yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]

2	3
---	---

Ysgrifennwch **lythyr Haul y Bore at ffrind** wrth iddi deithio i'r Bosque ar ddiwedd y nofel. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]

[40]

Mewn dim amser roedd y lle yn ferw. Trawodd Carson Dicks ar draws cefn ei ben gyda'i bistol nes iddo lithro yn anymwybodol dros wddf ei farch. Gafaelodd yn awenau'r ceffyl a'i dywys allan o'r Ffort. Clywodd ddryll yn tanio a theimlodd boen yn saethu trwy'i goes chwith. Edrychodd yn ei ôl. Roedd Dicks yn gorwedd yn anymwybodol ar draws gwar ei geffyl. Tywysodd ef i gyfeiriad y coed.

Ymhen ychydig daeth Carson at y fan lle'r roedd Chico'n aros amdano. Roedd o'n cyrcydu yno yng ngwlith y bore bach. Roedd y boen yn amlwg ar ei wyneb, a daliai ei fraich chwith ar draws ei stumog. Roedd y gwn yn y llall.

"Amser dial, Chico," meddai. "Ond maen nhw'n dod ar fy ôl i."

Gwenodd hwnnw arno fel hogyn drwg. Â chryn drafferth y cododd ar ei draed; dangosodd y graith ar ei law iddo. Cododd Carson yntau ei law.

Roedd Dicks yn dod ato'i hun.

Clymodd Carson y rhaff am ei wddf a'i thynnu'n dynn. Bu'n rhaid i Dicks godi. Clymodd Carson y rhaff yn sownd yn y goeden. Ceisiodd Dicks ymryddhau, ond roedd y rhaff yn rhy dynn iddo.

Sylwedolodd Dicks yn sydyn beth oedd yn digwydd.

"Carson! Kit? KIT!?" ymbiliodd Dicks. "Fedri di ddim gadael i hyn ddigwydd!"

Ysgydodd yntau'i ben.

"Mae 'na gyfiawnder hyd yn oed mewn rhyfel, Dicks."

Troes ei gefn ar y Captan a sbardunodd ei geffyl i gyfeiriad y coed.

"Carson!" gwaeddodd Dicks ar ei ôl, and nid arhosodd Kit Carson o gwbl. Dim and unwaith y trodd Carson yn ei ôl a hynny i weiddi ar yr Indiad.

"Mae'r Cotiau Glas yn dod, Chico!"

"Carson!"

Ond roedd ei waedd yn ofer. Gwyliai Dicks ei obaith yn pellhau oddi wrtho fel y carlamai Carson nerth carnau ei farch oddi yno. Ond beth oedd y sŵn yna? Sŵn fel taranau yn dod o bell? Sŵn carnau ceffylau!

Tynnodd Chico forthwyl y gwn yn ei ôl, ac eisteddodd wrth fôn y goeden. Fferrodd Dicks pan glywodd y sŵn hwnnw. Roedd hi'n fore braf ac roedd yntau ar fin marw! Roedd wedi dod trwy ysgarmesau lu, a rŵan roedd yn mynd i farw dan law Indiad nad oedd eto'n hanner ei oed! Oedd o'n mynd i farw? Fedrai o wneud rhywbeth i'w achub ei hun? Tynnu sylw'r Indiad felltith yma cyn iddo fo wasgu'r triger a thanio'i ergyd?

Edrychodd eto ar Chico. Ceisiai hwnnw godi ar ei draed. Gallai Dicks weld ei fod yn cael trafferth. Gafaelai yn ei stumog ac roedd ei wyneb yn llanast o boen.

Roedd sŵn carnau'r ceffylau yn dynesu. Daeth fflach o obaith i galon Dicks. Yna anobaith. Fe fyddai'r Indiad ddiawl yma'n siŵr o orffen ei waith ysgeler cyn i'r milwyr gyrraedd.

DIM – Dafydd Chilton

3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

3	1
---	---

Trafodwch **ddwy** olygfa drist gan esbonio eu pwysigrwydd yn y nofel. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa a ddyfynnwyd ar dudalen 7. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen.

[20]

3	2
---	---

Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 7. **Sut** mae'r awdur yn cyfleu tensiwn yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

3	3
---	---

Ysgrifennwch **lythyr Gwyn at Owain** noson angladd Enid Lloyd. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

[40]

- Doedd dim arwydd o deimlad ar wyneb Gwyn, and roedd yn welw, a'i lygaid yn fawr. Darllenodd y llythyr unwaith eto. Ac yn raddol fe arafodd rhuthr ei feddyliau, a dechreuodd allu dygymod â goblygiadau'r hyn oedd ganddo yn ei law. Tynnodd anadl ddofn, a'i gollwng. Ac yn y gollwng roedd rhywbeth yn debyg i ochenaid. Cyfeiriodd ei lygaid at dri gair olaf y llythyr a ffurfiodd ei wefusau i'w siâp. A dywedodd nhw'n uchel. Roedd eu sŵn yn dda.
- 5 Aeth rhai eiliadau heibio. Yna rhoddodd y llythyr yn ôl yn yr amlen wen a'i gosod yn ofalus ar un ochr. Estynnodd at yr amlen frown, oedd heb ei selio, a thynnu bwndel o bapurau ohoni. Rhoddodd yr amlen ar y bwrdd ac agor y bwndel. Aeth drwyddo'n fras, a chael ynddo gofnod o ddogwyddiadau, tebyg i ddyddiadur. A ffotograffau, o ddogfennau cyfrinachol ac o bobl. Ac, i
- 10 gyd-fynd â ffotograffau'r bobl, restr o enwau.
Dechreuodd ddarllen.
A chael hanes y 'Tîm' yng Ngogledd Iwerddon.
A'u rhan yn y trais yno. Ac yn y cynllwyn i danseilio trefn Prydain.
Darllenodd am gysylltiad Owain â nhw.
- 15 Ac am ei waith yn ehangu eu hymgyrch i Gymru. Darllenodd ac ailddarllenodd y cofnod, y dogfennau, yr enwau. Nes bod eu manylion wedi eu serio ar ei gof.
Aeth dros awr heibio cyn iddo gau'r bwndel a'i roi yn ôl yn yr amlen frown. Roedd lwmpyn yn ei fol a hwnnw'n galed, a'r blas ceiniogau yn ei geg yn codi'r dincod arno. Edrychodd ar yr amlen frown.
- 20 A ddylai ei hanfon hi? Ar ôl cymaint o amser? A oedd o eisiau camu i'r byd *hwnnw*? Ystyriodd.
Yna cododd yr amlen i'w geg, llyfu'r glud ar y fflap cau a phlygu'r fflap i'w le. Roedd y rhain yn bobl a oedd wedi defnyddio Owain. Ei gamddefnyddio. Ac yna wedi ei ladd. Gosododd yr amlen yn fflat ar y bwrdd a'i chau hi'n dynn.
Efo'i ddwrn.
- 25 Yna sythodd. Rhoddodd yr amlen wen yn ei boced a galwodd ar Julius Brändli. Pan ddaeth hwnnw, fe roddodd y blwch gwag yn ôl iddo a threfnu trosglwyddo gwerth y *Krugerrands* i'w gyfrif ym manc y Glyn. Ac wedi diolch i'r Swisiad am ei garedigrwydd a'i drafferth fe ddechreuodd am y drws.
Yna arhosodd. Trodd yn ôl at Julius Brändli, a oedd yn edrych yn ymholgar arno.
- 30 Cododd yr amlen frown a phwyntio at y cyfeiriad ar ei blaen.
"Wo ist das?"
Darllenodd Julius Brändli y geiriau a thursio'i wefusau.
"Das ist der Wohnort der Amerikanische Botschafter," meddai. Cartref swyddogol Llysgennad yr Unol Daleithiau.
- 35 Diolchodd Gwyn iddo unwaith eto, a mynd.

Y STAFELL DDIRGEL – Marion Eames

4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

4	1
---	---

Trafodwch **ddwy** olygfa drist gan esbonio eu pwysigrwydd yn y nofel. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa a ddyfynnwyd ar dudalen 9. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen.

[20]

4	2
---	---

Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 9. **Sut** mae'r awdur yn cyfleu ofn yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

4	3
---	---

Ysgrifennwch **lythyr Lisa at ffrind** wedi iddi briodi Tomos. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

[40]

Syllodd Ellis arnyn nhw o'r tu ôl i'r barrau anferth a'i gwahanai ef a'r ceidwad oddi wrth y carcharorion. Chwiliodd ei lygaid yn ddyfal am ei gyfaill ymhlith y creaduriaid hyn, ond nis gwelai. Camodd Siôn Prys yn ei flaen heb gymryd sylw o'r gweiddi a'r llefain, nes dod at stafell arall nad oedd mwy na chaets ond ei bod hi'n gymharol lân a thawel gyda digonedd o wellt ffres ar lawr.

'Mae dy ffrind yn cael gwely moethus i farw ynndo,' grwgnachodd gan ddatgloi drws sgwâr yn y barrau. 'Mae'n dda i'r Cwaceriaid fod ganddyn nhw gyfeillion cyfoethog.'

Gorweddai Ifan Robarts â'i wyneb at y mur, ond ceisiodd symud peth pan glywodd lais y ceidwad. Brawychwyd Ellis gan y newid yng nghyflwr ei gyfaill er pan welsai ef y tro diwethaf. Dyn mawr cryf tua deuddeg ar hugain oed oedd Ifan Robarts, dyn llawen a llond ei groen. Ai Ifan oedd y gŵr â'r llygaid mawr du a drowyd yn erfyniol ato, a chwys y dwymyn yn torri allan yn ddafnau mawr ar ei dalcen?

Rhuthrodd Ellis i mewn i'r stafell, a daeth cysgod o wên i wyneb Ifan a'i wneud yn fwy cyfarwydd i Ellis.

Anadlai'n llafurus. 'Mae'n dda dy weld di, gyfaill.'

'Wyt ti'n waeth, Ifan Robarts? Yr hen goes 'na, ia?'

Ond roedd Ifan wedi cau ei lygaid gan gymaint yr ymdrech i siarad. Syrthiodd Ellis ar ei liniau wrth y claf ac mor ysgafn a chyflym ag aderyn, piliodd yn ôl y carpiâu a fu unwaith yn glos pen-glin. Tynnodd ei anadl ato yn sydyn. Roedd y goes wedi chwyddo i ddwywaith ei maint a honno'n ddu a choch a glas tywyll. Ac allan o'r cnawd fe ymwithiai darn o asgwrn fel cangen pren a rwygwyd yn frysio. Trodd Ellis yn wenfflam at y ceidwad.

'Fu neb yn trin y goes yma, ddyn?'

'Trin y goes? Be ddiawl wyt ti'n feddwl ydw i? Pothecari?'

'Ond fe wyddost o'r gora fod Ifan Robarts wedi torri'i goes am iddo geisio gwahanu dau ddyn a fu'n ceisio lladd 'i gilydd—cadw trefn yn dy garchar di, mewn gair, Siôn Prys.'

Siaradai Ellis yn isel rhag mennu gormod ar Ifan, ond ysgyrnygodd Siôn Prys yn ôl:

'Yli'r herlod digywilydd! Wyt ti'n anghofio mai heretig a chabledwr sy'n gorwedd yn fan'na? Os ydy Duw wedi'i daro fo i lawr, myn uffern i, dydw i ddim yn mynd i roi swci iddo fo.'

Agorodd Ifan ei lygaid yn araf. 'Hidia befo, Ellis. Rwyt ti wedi dŵad, ac mi rydw i'n falch odiaeth o dy weld di.'

Trodd Ellis ei gefn ar y ceidwad, ac fe sleifiodd hwnnw i ffwrdd. Agorodd y blwch eli.

'Paid â siarad rŵan, Ifan. Dyma i ti eli llysia'r cwlwm i roi ar dy goes. Ond yn gynta mae'n rhaid imi dreio rhoi'r asgwrn 'na nôl yn 'i le ... fedri di ddiode tybed? ... Mi gyflawnas i wyrth ar yr hen lo bach 'cw ryw fis yn ôl medda mistar ... yn ara deg rŵan ... dyna ni ... mi dynna' i'r goes i lawr ... fel hyn ...'

Tra siaradai Ellis yn isel a thyner fel mam wrth ei phlentyn, roedd ei ddwylo'n brysur. I greadur mor eiddil ei olwg roedd ganddo fysedd cryfion ac ystwyth. Byddai wedi hoffi gofyn i Siôn Prys am ddŵr i olchi'r briw ond roedd arno ofn gadael Ifan rhag ofn iddo fethu cael caniatâd i ddod yn ôl.

Crynai Ifan drosto o'i gorun i'w draed fel petai'r acsus arno, ond ddaeth yr un ochenaid o'i enau.

YN Y GWAED – Geraint Vaughan Jones

5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

5	1
----------	----------

Trafodwch **ddwy** olygfa drist gan esbonio eu pwysigrwydd yn y nofel. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa a ddyfynnwyd ar dudalen 11. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]

5	2
----------	----------

Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 11. **Sut** mae'r awdur yn cyfleu ofn yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]

5	3
----------	----------

Ysgrifennwch **lythyr Mared at ffrind** dychmygol wedi iddi ddechrau ei pherthynas gyda Jeff. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]

[40]

'Cyn iti gychwyn, rhaid iti fynd i'r ... i'r llofft stabal.'

Rhythu'n unig a wnaeth Robin, y cwestiwn mud yn amlwg yn ei lygaid.

'Rhaid i rywun fynd â bwyd iddo fo.'

'Dim cythral o beryg, ddynas! Dwi'm yn mynd â fo! Dydw i 'rioed wedi bod yno!'

5 'Sgin ti ddim dewis nag oes. Mared yn 'i gwely, pwy arall eith?'

'Chi!'

'Na! A titha'n gwbod na fedra i ddim.'

'Ofn s'arnoch chi.'

'Ia, ofn. Does wbod be wnaetha Fo imi.'

10 'Ma' Fo wedi anghofio pwy 'dach chi bellach. Wedi anghofio mai chi sy 'di'i gloi o yn fan'na am byth. Falla y bydd o'n glên iawn efo chi.'

'Cau dy geg â phaid â siarad mor wirion. Fedra i ddim mynd a dyna fo! Felly rhaid i ti fynd; oni bai bod ofn arnat titha hefyd.' Roedd ei mingamu gwawdlyd yn sicr o wneud ei waith.

'Ofn? Sgin i ddim achos i fod 'i ofn o. Dowch imi weld y fowlan 'na!'

15 Yn fyrbwyl fel'na yr aeth Robin-Dewyrth-lfan allan o'r gegin ac er difaru ymhell cyn cyrraedd y grisiau cerrig, doedd dim troi'n ôl i fod.

Wrth roi'i law ar follt y drws teimlai'i galon yn curo'n wyllt yn ei frest. Clustfeiniodd am sŵn oddi mewn. Dim byd. Llithrodd y pâr yn araf o'i dderbynydd a gwthio'n ysgafn â'i ysgwydd. Siglodd y drws yn wichlyd ar ei golion.

20 Dyna'r lle'r oedd, ar ei gwrcwd wrth y wal bellaf. Yr olygfa fwyaf truenus a welsai Robin erioed. Anifail o beth yn cwmanu mewn ofn, ei wyneb o'r golwg bron tu ôl i wallt caglog, llaes a locsyn hir, tenau. Y pen yn codi'n araf i syllu ar yr ymwelydd, y llygaid yn agor yn fawr ac yn waedlyd wyllt, y geg wlyb goch yn rhwth a'r tafod yn atgas wyn o'i mewn. Tynnodd Robin ei wynt i mewn yn swnllyd rhwng ei ddannedd a'i ddal yno, yn ei ddychryn. Rhywbeth yn perthyn i'w hunlle oedd hwn!

Disgwyl Mared mae o. Mae arno fo ofn.

Camodd yn betrus i mewn i'r stafell foel gan anelu at y bwrdd bach a'r gadair oedd ar ganol y llawr.

30 *Sgwn i ydi Mared yn arfar 'i fwydo fo? Chlywis i 'rioed moni'n sôn. Ddarau minna 'rioed feddwl gofyn.*

Yn ansicr rhoddodd y fowlan a'r llwy ar y bwrdd a thaflu golwg be-wna-i? o'i gwmpas. Roedd pobman mor ddieithr iddo a cheisiai edrych i bobman ond ar y peth oedd yn trigo yma. Yn sydyn, cododd gwich annaeorol o'r gornel a chyn i Robin gael cyfle i gamu o'i ffordd fe'i hyrddiodd y pentwr esgymun ei hun arno gan sgyrnygu yn ei fraw a chrafangu a chripio â'i ewinedd budron, hir.

35 Digwyddodd popeth ar unwaith rywfodd. Wrth deimlo'r gwaed yn rhedeg yn gymysg â'r glafoer ar ei foch ac wrth ffieiddio ar yr anadl sur o'r geg orffwyll, agored o'i flaen, collodd Robin arno'i hun yn lân. Chwifiodd ei freichiau'n wyllt i'w amddiffyn ei hun ac i atal yr ymosodiad. Yr eiliad nesaf caeodd dannedd melynfrown am ei arddwrn chwith a brathu'n filain hyd at yr asgwrn. Gollyngodd waedd o boen a dicter a hyrddio'n ddall yn erbyn yr anifail oedd yn ymosod arno. Gwelodd ef yn baglu'n ôl yn bendramwnwgl dros y gadair. Dyma'i gyfle!

Wrth i'r bollt saethu i'w le cododd cri hir, dorcalonnus o'r llofft stabal; ton ar ôl ton o ddolefain annaeorol.

O RAN – Mererid Hopwood

6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

6	1
---	---

Trafodwch **ddwy** olygfa drist gan esbonio eu pwysigrwydd yn y nofel. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa a ddyfynnwyd ar dudalen 13. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen.

[20]

6	2
---	---

Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 13. **Sut** mae'r awdur yn cyfleu cyffro a siom yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

6	3
---	---

Ysgrifennwch **lythyr Angharad at Mair** wedi i Huw Huws fynd adre o'r ysgol gyda hi. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen.

[10]

[40]

Western Mail. Mawrth 1af, 1977.

Yn dawel bach roedd gen i uchelgais. Bob blwyddyn yn Ysgol Bro Taf byddai'r plant lan lofft yn cael eu hannog i anfon cerddi a thraethodau, yn Gymraeg neu yn Saesneg, i'r *Western Mail* ar gyfer cystadleuaeth dydd Gŵyl Dewi. Roedd ennill yn un o'r categorïau hyn yn destun cryn falchder. Cyhoeddiad yn y gwasanaeth. Cymeradwyaeth. Llun yn y papur. A rhyw wawr o bwysigrwydd dros dro yn dod yn rhan o'r wob, gwawr a fyddai naill ai'n deillio o edmygedd pawb arall, neu yn ennyn edmygedd pawb arall. Roedd hi'n anodd dweud.

Yr un enwau fyddai'n ymddangos o flwyddyn i flwyddyn. Eurig Lewis. Cari Geraint. Rhun Dyfed. Gaenor Lewis. Roeddwn i'n dyheu am gael bod yn eu plith.

Ac eleni, yn yr ysgol uwchradd, roedd Miss Herbert wedi gosod y traethawd Saesneg fel gwaith cartref gwirfoddol. Testun y traethawd Cymraeg oedd 'Fy Arwr i', a'r traethawd Saesneg oedd 'My Favourite Place'. Yn dawel bach, roeddwn i wedi mwynhau sgrifennu'r gwaith. Roeddwn i'n arbennig o falch o un frawddeg a luniais i ddisgrifio afon Taf: 'as the river beguiles me along its banks ...' Roeddwn i'n hoffi sŵn y 'beguiles' a'r 'banks', ac yn hoffi 'beguiles' yn ofnadwy, oherwydd, er nad oeddwn i'n hollol siŵr o'i ystyr, roedd e'n air 'anodd'.

Tybed?

Deuai'r papur gyda'r llaeth, a doedd dim dal ar ddyn y llaeth. Weithiau, byddai'n gadael ei neges gyda golau cynta'r bore bach; dro arall, byddai haul y prynhawn yn dechrau melynau'r dydd cyn y byddai Garry'r Llaeth yn troi ei fflôt am yr Eglwys Newydd. Cwynai Myng-gu'n ofnadwy am anwadalrwydd Garry. Cydymdeimlo wnâi Dad. A beth bynnag, roedd Dad yn gallu yfed coffi du.

Tybed?

Rhedais lawr drwy'r stâr. Wrth ddod rownd y tro cyn y tair gris olaf, gallwn weld drwy'r nadroedd ym mhatrwm mwll y gwydr yng ngwaelod y drws ffrynt fod Garry wedi bod yn barod.

Tybed?

Teflais y papur mawr ar fwrdd y gegin ac agor y tudalennau'n frysiog ofalus. 'This year's winners ...' Rhai o'r un enwau ... ac un syrpreis! Un enw newydd yn eu plith! Teimplais yn rhyfedd. Rhyw deimlad gwag yn fy mhengliniau. Teimlad rhwng llawenydd a siom. Teimlad rhwng balchder a chenfigen.

Mair. Mair. Roedd Mair wedi ennill. Roeddwn i'n falch. Oeddwn. Roeddwn i'n siomedig. Oeddwn. Tamed bach.

Plygais y papur yn ôl. Cawn ddarllen yr ysgrif rywbyrd eto. Edrychais ar gloc y gegin. Hanner awr wedi chwech. Doedd dim angen codi am chwarter awr arall. Roedd hi'n rhy gynnar i ffonio Mair i'w llongyfarch. Ac yn ôl a fi i fyny'r stâr, gan feddwl tybed a oedd y pwysigrwydd a ddeuai i'r enillwyr yn ymestyn i gynnwys ffrindiau gorau'r enillwyr? Siawns ei fod e. A chyrhaeddais yn ôl i'm stafell wely heb wybod fod enw cyfarwydd arall rhwng cloriau'r papur.

Enw Dad.

DIWEDD Y PAPUR

TUDALEN WAG

TUDALEN WAG